WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Sir Penfro**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1772A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Alison Lewis, Jeremy Saunders a Tim Buckle dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n wynebu heriau sylweddol i gau'r bwlch a ragwelir yn ei gyllid yn y dyfodol.

Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n wynebu heriau sylweddol i gau'r bwlch a ragwelir yn ei gyllid yn y dyfodol 7

Mae gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy ond gallai cyflawni'r strategaeth hon ddod yn fwy o her o un flwyddyn i'r llall 7

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi nodi gorwariannau gweddol fach yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan ond roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth 9

Mae'r Cyngor wedi cael llwyddiant cymysg o ran cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio 10

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ac nid oes gan y Cyngor hanes o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw 11

Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni lefelau gweddol uchel o ran casglu'r dreth gyngor er gwaethaf codiadau sylweddol yn lefelau'r dreth gyngor yn ddiweddar 13

Mae lefel fenthyca'r cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf a rhagfynegir y bydd yn codi ychydig eto yn 2020-21 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- perfformiad yn erbyn y gyllideb;
- cyflawni cynlluniau arbedion;
- defnyddio cronfeydd wrth gefn;
- y dreth gyngor, a
- benthyca.

#### Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net Cyngor Sir Penfro (y Cyngor), nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £221.5 miliwn**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 5,700 o bobl**




**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £732 miliwn**

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir Penfro/ Adroddiad Ariannol Blynyddol Cyngor Sir Penfro gan gynnwys ei Ddatganiad Cyfrifon 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw'r Cyngor

Mae'r siart cylch isod yn dangos faint o arian gafodd y Cyngor o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2018-19




Ffynhonnell: Ffigyrau sy'n deillio o ganrannau a ddarparwyd gan Gyngor Sir Penfro fel rhan o'r Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: **Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n wynebu heriau sylweddol i gau'r bwlch a ragwelir yn ei gyllid yn y dyfodol.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy ond gallai cyflawni'r strategaeth hon ddod yn fwy o her o un flwyddyn i'r llall;
- dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi nodi gorwariannau gweddol fach yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan ond roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth;

- mae’r Cyngor wedi cael llwyddiant cymysg o ran cyflawni ei arbedion wedi’u cynllunio;
- mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ac nid oes gan y Cyngor hanes o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw;
- mae’r Cyngor wedi parhau i gyflawni lefelau gweddol uchel o ran casglu’r dreth gyngor er gwaethaf codiadau sylweddol yn lefelau’r dreth gyngor yn ddiweddar; ac
- mae lefel fenthyca’r cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf a rhagfynegir y bydd yn codi ychydig eto yn 2020-21.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi rheoli ei adnoddau i ymdopi â phwysau ariannol hyd yma ond mae'n wynebu heriau sylweddol i gau'r bwlch a ragwelir yn ei gyllid yn y dyfodol

### Mae gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy ond gallai cyflawni'r strategaeth hon ddod yn fwy o her o un flwyddyn i'r llall

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.


#### Yr hyn a ganfuom

7 Canfuom fod gan y Cyngor strategaeth i adnabod ei heriau ariannol a mynd i'r afael â hwy ond gallai cyflawni'r strategaeth hon ddod yn fwy o her o un flwyddyn i'r llall. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi adnabod bwlch o ran cyllid o £39.8 miliwn hyd at 2022-23.
- mae'r Cyngor wedi rheoli pwysau ariannol hyd yma heb iddynt effeithio'n negyddol ar lefel ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol.
- mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n nodi'r bwlch a ragwelir yng nghyllid y Cyngor dros y blynyddoedd nesaf ac sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol.
- dull bwriadedig y Cyngor o 2020-21 yw gofyn i'r holl wasanaethau amsugno pwysau o ran y galw a chwyddiant o un flwyddyn i'r llall, gyda'r cyfle i wasanaethau wneud cynigion twf. Byddir yn gofyn hefyd i rai gwasanaethau wneud arbedion ychwanegol o 20% o leiaf fel rhan o ymarfer Blaenoriaethu Gwasanaethau'r Cyngor. Mae hyn yn erbyn cefnlen lle mae nifer cynyddol o wasanaethau'n nodi gorwariannau.
- yn gyffredin â chynghorau eraill mae rhai meysydd gwasanaeth wedi profi gostyngiad sylweddol mewn termau real yn eu cyllideb dros y blynyddoedd diwethaf. Mae capasiti'r meysydd gwasanaeth hyn i barhau i wneud arbedion mewn termau real o un flwyddyn i'r llall gan barhau i ddarparu gwasanaethau'n debygol o fod yn her fawr i'r Cyngor.

Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae’r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae’r Cyngor wedi’i adnabod ar gyfer eleni, a’r tair blynedd ganlynol yn seiliedig ar gynnydd o 4.9% mewn cyllid allanol cyfanredol ar gyfer 2020-21 a chynnydd o 2% ar gyfer pob blwyddyn ganlynol.




Ffynhonnell: Ffigyrau a ddarparwyd ar gyfer 2019-20 – Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol, Cyngor Sir Penfro

Ffigyrau ar gyfer 2020-21, 2021-22 a 2022-23 o Gyllideb Cyngor Sir Penfro 2020-21, ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig Cryno 2020-21 to 2023-24, ac Adroddiad i’r Cyngor dyddiedig 27 Chwefror 2020.

## Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi nodi gorwariannau gweddol fach yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan ond roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Canfuom fel a ganlyn: dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Cyngor wedi nodi gorwariannau gweddol fach yn erbyn ei gyllideb refeniw net ar y cyfan ond roedd gorwariannau sylweddol mewn rhai meysydd gwasanaeth. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gallu cyrraedd y sefyllfa hon trwy gasglu mwy o dreth gyngor nag y mae wedi cyllidebu ar ei chyfer, sicrhau cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a thrwy gyflawni arbedion mewn meysydd eraill ar wahân i'r rhai a gynlluniwyd.
- ceir tuedd gynyddol o orwariant mewn mwy o adrannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn awgrymu bod adrannau'n ei chael yn anos rheoli gostyngiadau parhaus mewn termau real yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau a/neu bwysau cynyddol o ran y galw am rai gwasanaethau.
- ceir hanes o orwariannau yn y gyllideb Gwasanaethau Addysg. Ar gyfer 2018-19 roedd gan y gyllideb Gwasanaethau Addysg orwariant o £1.7 miliwn.
- yn ystod 2018-19 roedd gorwariannau mewn meysydd gwasanaeth eraill hefyd gan gynnwys:
  - Gwasanaethau Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
  - Gwasanaethau Diwylliant a Chysylltiedig; a
  - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu.

### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd y flwyddyn hyd yma o ran y sefyllfa ar 4 Tachwedd 2019.

| Blwyddyn | Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net £m | Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net £m | Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan £m | Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | 204.8 | 204.8 | Gwarged o 0.05m | Gwarged o 0.02% |
| 2018-19 | 215.5 | 216.1 | Diffyg o 0.6m | Diffyg o 0.25% |
| 2019-20 | 221.5 | 223.2 | Diffyg o 1.7m | Diffyg o 0.79% |

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol/Adroddiad Monitro'r Gyllideb Cyngor Sir Penfro – Cyfnod 5 2019-2020 Adroddiad i'r Cabinet, 4 Tachwedd 2019

## Mae'r Cyngor wedi cael llwyddiant cymysg o ran cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio

### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor wedi cael llwyddiant cymysg o ran cyflawni ei arbedion wedi'u cynllunio. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn cyflawni 80% o'r arbedion wedi'u cynllunio
- ni chyrhaeddodd y Cyngor ei darged arbedion yn 2017-18;
- cyflawnodd y Cyngor yn erbyn ei dargedau arbedion o 80% yn 2018-19 gan gyflawni 83.5%;

- mewn rhai meysydd gwasanaeth roedd lefelau sylweddol o arbedion heb eu cyflawni yn 2018-19 gan gynnwys Gofal Cymdeithasol i Oedolion, Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill; ac
- mae'r Cyngor yn rhagweld ei fod yn annhebygol o gyrraedd ei darged arbedion ar gyfer 2019-20. Ar gyfer 2019-20 mae'r Cyngor yn rhagweld, o £15.7 miliwn o arbedion wedi'u cynllunio, na fydd £3.0 miliwn (19.4%) yn cael eu cyflawni ac mae'n rhagweld y bydd £5.9 miliwn (37.6%) pellach yn cael eu cyflawni'n rhannol yn unig.

### Arddangosyn 5: arbedion a gyflawnwyd yn ystod 2018-19 fel canran o'r arbedion wedi'u cynllunio

Mae'r arddangosyn canlynol yn nodi faint o arian yr oedd y Cyngor yn bwriadu ei arbed trwy arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19 a faint o hyn y gwnaeth ei arbed mewn gwirionedd.

| £11.6m | £9.7m | £1.9m | 83.5%* |
| --- | --- | --- | --- |
| Cyfanswm yr arbedion wedi'u cynllunio | Arbedion wedi'u cynllunio a gyflawnwyd | Arbedion wedi'u cynllunio nas cyflawnwyd | Canran yr arbedion a gyflawnwyd |

(*Gosododd y Cyngor darged ar ei gyfer ei hun i gyflawni 80% o'i arbedion wedi'u cynllunio yn ystod 2018-19)

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir Penfro

## Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ac nid oes gan y Cyngor hanes o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau 'buddsoddi i arbed' sydd wedi'u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy'n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy'n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau

eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.


## Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom fel a ganlyn: mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy'r Cyngor wedi aros yn weddol sefydlog ac nid oes gan y Cyngor hanes o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy o £34.9 miliwn ym mis Mawrth 2019, a oedd yn gyfwerth ag 16.21% o'i gyllideb refeniw net;
- roedd cronfa wrth gefn gyffredinol y Cyngor yn £7 miliwn ym mis Mawrth 2019 ac mae wedi aros ar £7 miliwn ers 2016-17;
- mae'r Cyngor yn bwriadu cynyddu cronfeydd wrth gefn i £38.2 miliwn erbyn mis Mawrth 2020, gan gynnwys cynnydd sylweddol yn ei Gronfa wrth Gefn Trawsnewid o ganlyniad i ad-daliad TAW ac ad-daliad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol yn ystod 2018-19;
- er bod lefel cronfeydd wrth gen wedi aros yn sefydlog, mae'r gymhareb cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi dirywio ychydig bach dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i godiadau yng nghyllideb refeniw'r Cyngor; ac
- mae gan y Cyngor hanes o beidio â dibynnu ar ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i ariannu gwariant refeniw er ei fod wedi gwneud defnydd wedi'i gynllunio o gyllid ychwanegol o'r bremiwm treth gyngor ar ail gartrefi i fantoli ei gyfrifon yn ystod 2017-18.

## Arddangosyn 6: swm y cronfeydd wrth gefn o'i gymharu â'r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o'i gymharu â'i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£215.5m**
Cyllideb Refeniw Net

**£34.9m**
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy

**16.21%**
Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir Penfro

# Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni lefelau gweddol uchel o ran casglu'r dreth gyngor er gwaethaf codiadau sylweddol yn lefelau'r dreth gyngor yn ddiweddar

## Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

14 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

## Yr hyn a ganfuom

15 Canfuom fel a ganlyn: mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni lefelau gweddol uchel o ran casglu'r dreth gyngor er gwaethaf codiadau sylweddol yn lefelau'r dreth gyngor yn ddiweddar. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae gan y Cyngor hanes da o gasglu'r dreth gyngor ac ar gyfer 2017-18 a 2018-19, er bod y gyfradd casglu ar gyfer 2018-19 (97.9%) ychydig yn is nag ar gyfer 2017-18 (98.3%).
- ar gyfer 2018-19 fe wnaeth y Cyngor gynyddu'r dreth gyngor 12.5%, ac ar gyfer 2019-20 fe'i cynyddodd 9.92%.
- mae'r dreth gyngor wedi cynyddu fel canran o incwm refeniw'r Cyngor ers 2008-09 er bod swm y Grant Cynnal Refeniw fel canran o incwm y Cyngor wedi gostwng.
- mae'r Cyngor wedi cyflwyno premiwm treth gyngor ar ail gartrefi. Defnyddiwyd rhan o'r incwm a godwyd trwy hyn i gynyddu cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2017-18 a dyrannwyd rhan ohono i ddarparu tai fforddiadwy. Mewn blynyddoedd yn y dyfodol mae'r Cyngor yn bwriadu dyrannu'r incwm i dai fforddiadwy (50%) a gwella cymunedau (50%) yn hytrach na'i ddefnyddio i ariannu gwariant refeniw.
- mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi adennill costau llawn ar gyfer ffioedd a thaliadau ar draws yr holl wasanaethau.

### Arddangosyn 7: cyfraddau casglu’r dreth gyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o’r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o’r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn 97.9% o’i gymharu â debyd casgladwy o £63.0m

Ffynhonnell: Cyfraddau Casglu’r Dreth Gyngor yng Nghymru: 2018-19, Ystadegau Cymru, Llywodraeth Cymru, 11 Mehefin 2019

## Mae lefel fenthyca’r cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf a rhagfynegir y bydd yn codi ychydig eto yn 2020-21

### Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

16 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy’n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a’u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau’r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

## Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom fel a ganlyn: mae lefel fenthyca’r cyngor fel cyfran o’i gyllideb refeniw net wedi codi ychydig dros y blynyddoedd diwethaf a rhagfynegir y bydd yn codi ychydig eto yn 2020-21. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- defnyddiodd y Cyngor gyfran sylweddol o’i gronfeydd wrth gefn cyfalaf i ariannu Band A Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd Band B y Rhaglen ac uchelgeisiau’r Cyngor mewn perthynas ag adfywio’n galw am fenthyca darbodus.

- gan gydnabod yr angen am ddull darbodus o fenthyca mae'r Cyngor wedi mabwysiadu cap costau cyllido cyfalaf o £14 miliwn y flwyddyn.
- nid yw'r Cyngor wedi benthyca unrhyw arian i ariannu buddsoddiadau masnachol.


### Arddangosyn 8: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca i ariannu buddsoddiadau masnachol, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£0m**

Swm y benthyciadau i ariannu buddsoddiadau masnachol



**4.59%**

Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19

Ffynhonnell: Hunanasesiad o Gynaliadwyedd Ariannol Cyngor Sir Penfro

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru